

# Cadw eich cartref rhag lleithder ac anwedd

## A oes lleithder yn eich cartref?

Mae lleithder yn cael ei achosi fel arfer gan nam yn adeiledd yr adeilad. Mae dau fath sylfaenol o leithder:

Mae **lleithder sy'n treiddio** yn digwydd pan fydd dŵr yn mynd i mewn i'ch cartref trwy nam allanol. Enghreifftiau o hyn yw:

- Crac yn y wal neu deils to yn rhydd.
- Pibellau neu orlif gwastraff dŵr yn gollwng.
- Glaw yn treiddio drwy'r to lle mae teilsen neu lechen ar goll, sarnu o gwter wedi blocio, treiddio o amgylch fframiau ffenestri, gollwng trwy bibell wedi cracio neu o simnai sy'n gollwng.



Yn aml bydd y lleithder yn ymddangos fel darnau tywyll ar waliau a nenfydau sy'n gwaethygu pan fydd yn bwrw glaw.



Mae **lleithder sy'n codi** yn digwydd pan nad oes cwrs atal lleithder neu os oes problem gyda'r cwrs atal lleithder neu'r bilen a bod dŵr yn codi o'r ddaear i mewn i'r waliau neu'r llawr.

Mae symptomau o leithder sy'n codi yn cynnwys marc 'llynell lanw' hyd at 1 metr uwchben y llawr gyda phapur wal yn pilio a phlastr yn malurio a staen halen arno. Gall sgertins a gwaith pren hefyd ddangos arwyddion o bydredd.

***Yn anaml daw llwydni du mewn achos o leithder fel hyn ond maent yn gadael marc 'llynell lanw' ar ei ôl.***

Os nad ydych yn credu fod y lleithder yn cael ei achosi gan unrhyw un o'r pethau hyn, yna mae'n fwy na thebyg mai anwedd yw'r achos.

## Beth yw anwedd?



Gall anwedd ('condensation') ddigwydd ar unrhyw adeg ond mae fwyaf amlwg yn ystod tywydd oer; does dim gwahaniaeth os yw'n bwrw glaw neu'n dywydd sych. Mae'n dechrau fel lleithder yn yr aer, sy'n cael ei gynhyrchu fel arfer gan goginio, golchi neu sychu dillad dan do neu roi dillad gwlyb ar reiddiaduron. Pan fydd yn taro arwynebau oer fel waliau, drychau, teils wal a ffenestri mae'n cyddwyso ac yn ffurfio diferion dŵr. Mae'r aer llaith yn codi pan fydd yn gynnes ac yn aml mae'r lleithder wedyn yn diweddu ar nenfydau ac mewn ystafelloedd lan llofft sy'n oerach na gweddill y tŷ. Gwelir anwedd mewn corneli, ar neu wrth ymyl ffenestri, o fewn neu'r tu ôl i wardrobau a chypyrddau.

Gall teulu arferol o bedwar person gynhyrchu 15 litr o'r lleithder hwn bob dydd.

Gall anwedd parhaus arwain at dwf llwydni, a fydd yn ymddangos fel smotiau du ar waliau a nenfydau.

Gall llwydni hefyd effeithio ar ddillad, dodrefn ac esgidiau ac yn aml bydd yn eu troi'n wyrdd.

## Y camau cyntaf yn erbyn anwedd

Bydd angen i chi gymryd camau priodol i ddelio â'r anwedd, ond yn y cyfamser mae rhai camau syml y gallwch eu cymryd ar unwaith.

- Agorwch ffenestri ychydig i awyru'r ystafell a gadael awyr iach i mewn bob dydd.
- Sychwch y ffenestri a'r siliau bob bore a gwasgwch unrhyw ddŵr allan o'r clwtyn.
- Ceisiwch osgoi sychu dillad ar y rheiddiaduron yn eich cartref.
- Peidiwch â defnyddio peirant sychu dillad heb ei awyrellu.



## Y camau cyntaf yn erbyn llwydni

Yn gyntaf dylech drin y llwydni sydd eisoes yn eich cartref. Os wnewch chi ddelio â'r broblem sylfaenol, yna ni ddylai llwydni ailymddangos. Os ydych yn dioddef o broblemau anadlu, efallai y byddai'n syniad gwell cael rhywun i wneud hyn ar eich rhan.

### I ladd a chael gwared ar llwydni:

- Sychwch y waliau a fframiau'r ffenestri gyda hylif lladd ffwng o ansawdd da, gallwch ddod o hyd i'r rhain yn y rhan fwyaf o siopau DIY, fel arfer yn y rhes nwyddau addurno tŷ. Os oes modd dewiswch un sydd â rhif lechyd a Diogelwch cymeradwy. Dilynwch y cyfarwyddiadau yn ofalus bob tro gan gynnwys defnyddio menig rwber a mwgwd wyneb os oes angen. Peidiwch â defnyddio cannydd ('bleach') neu gynhyrchion sy'n cynnwys cannydd.
- Gwnewch yn siŵr fod yr holl llwydni yn cael ei lanhau a'i glirio'n drylwyr cyn ailaddurno a gadewch i'r waliau sychu am o leiaf wythnos ar ôl eu trin.
- Ar ôl y driniaeth, ailaddurnwch gan ddefnyddio paent lladd ffwng o ansawdd da er mwyn helpu i atal llwydni. Sylwer nad yw'r paent hwn yn effeithiol os ydych yn paentio neu osod papur wal cyffredin drosto. Wrth bapuro, defnyddiwch bast sy'n cynnwys deunydd lladd ffwng er mwyn atal twf llwydni pellach.
- Pe bai unrhyw llwydni yn ailymddangos, golchwch y llwydni i ffwrdd ar unwaith gyda dŵr a sebon cynnes.
- Gall llwydni fod yn symptom o rywbeth mwy difrifol sydd angen sylw arbenigol. Os ydych yn amau hyn, yna rhowch wybod i'ch Swyddfa Tai Leol.

***Yr unig ffordd barhaol o osgoi llwydni difrifol yw lleihau anwedd gymaint â phosibl.***

### Sut i osgoi anwedd

**Bydd y pedwar cam yma yn eich helpu i leihau'r anwedd yn eich cartref.**

#### 1. Cynhyrchu llai o leithder

Mae rhai gweithgareddau dyddiol arferol yn cynhyrchu llawer o leithder yn gyflym iawn.

- Er mwyn lleihau leithder wrth goginio, rhowch gaead ar sosbenni a pheidiwch â gadael y tegell i ferwi'n hir.
- Peidiwch â defnyddio gwresogydd paraffin a gwresogydd nwy potel heb fflw gan fod y gwresogyddion hyn yn rhoi llawer o leithder i'r aer – mae un galwyn o nwy neu baraffin yn cynhyrchu tua galwyn o ddŵr.




- Ceisiwch roi eich dillad yn yr awyr agored i sychu os ydych yn gallu. Neu rhowch y dillad yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu'r ffan ymlaen.
- Os oes gennych beiriant sychu dillad gwnewch yn siŵr bod y beipen awyru allan trwy ffenestr neu ddrws i'r awyr agored; mae pecynnau DIY ar gael ar gyfer hyn. Os yw'n beiriant sychu cyddwyso agorwch ffenestr yn yr ystafell, gan y bydd hynny'n caniatáu ar gyfer peth awyru ychwanegol pan fydd yn cael ei ddefnyddio.

## 2. Awyrrwch er mwyn cael gwared ar y lleithder

Gallwch awyru eich cartref heb greu drafft. Mae awyru yn angenrheidiol i gael gwared ar y lleithder sy'n cael ei gynhyrchu drwy'r amser, gan gynnwys lleithder o anadl pobl.

- Cadwch ffenestr fach yn gilagored neu agorwch yr awyrydd plastig bach ar frig y ffenestr pan fydd rhywun yn yr ystafell.
- Agorwch y ffenestri am gyfnod byr bob dydd er mwyn cylchredeg yr awyr a chael gwared ar hen aer.
- Awyrrwch y gegin a'r ystafell ymolchi pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn golygu agor y ffenestri yn fwy llydan a defnyddio ffan tynnu aer os oes un wedi'i ffitio. Gadewch y ffenestri ar agor, neu'r ffan ymlaen am gymaint o amser â phosib ar ôl i chi orffen, neu nes bod y anwedd wedi clirio.
- Caewch ddrysau'r gegin a'r ystafell ymolchi pan fydd yr ystafelloedd hyn yn cael eu defnyddio. Bydd gwneud hyn yn helpu i atal y lleithder rhag cyrraedd ystafelloedd eraill fel ystafelloedd gwely sydd yn aml yn oerach ac yn fwy tebygol o gael anwedd.
- Gadewch le er mwyn i'r aer gylchredeg o amgylch eich dodrefn. Agorwch ddrysau i awyru cypyrddau a chypyrddau dillad a gadewch le rhwng cefn cypyrddau dillad a'r wal. Gosodwch gypyrddau dillad a dodrefn yn erbyn waliau mewnol yn hytrach na waliau allanol, lle mae hynny'n bosibl.
- Peidiwch â blocio awyryddion parhaol, maen nhw yno am bwrpas.
- Defnyddiwch yr awyryddion 'diferu' plastig ar frig eich ffenestri gymaint ag y gallwch.



## 3. Inswleiddiwch eich cartref a chymryd camau i atal drafftiau ar ffenestri a drysau allanol

Bydd inswleiddio yn y llofft, inswleiddio waliau ceudod a chymryd camau i atal drafft o ffenestri a drysau allanol yn helpu i gadw eich cartref yn gynnes a chadw eich biliau tanwydd i lawr hefyd. Pan fydd y cartref cyfan yn gynhesach, mae anwedd yn llai tebygol o ddigwydd.

## 4. Cynheswch eich cartref ychydig yn fwy

Mewn tywydd oer, y ffordd orau i gadw ystafelloedd yn ddigon cynnes i osgoi anwedd yw cadw'r gwres ymlaen yn isel yn y cefndir bob dydd, hyd yn oed pan nad oes unrhyw un yn y cartref. Mae hyn yn bwysig iawn mewn fflatiau a byngalos a thai eraill lle nad yw'r ystafelloedd gwely uwchben ystafell fyw gynnes. Cofiwch ddarparu awyriad yn y cefndir ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi tenantiaid fel rhan o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae hyn yn cael ei wneud drwy gyfrwng cymysgedd o fesurau fel uwchraddio inswleiddio a gwresogi, ynghyd â darparu fffaniau tynnu aer. Os nad ydych eto wedi cael y gwaith hwn wedi'i wneud bydd yn cael ei raglennu fel rhan o'r bwriad i'w ddarparu er mwyn cyflawni SATC.

## Pwyntiau i'w cofio

### Cynhyrchu llai o leithder:

- Rhowch gaead ar sosbenni.
- Sychwch ddillad yn yr awyr agored.
- Wrth ddefnyddio eich peiriant sychu dillad rhowch y beipen awyru allan trwy ffenestr neu ddrws.
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion paraffin neu wresogyddion nwy potel heb fflw.

### Awyrwch i gael gwared ar leithder:

- Awyrowch drwy'r amser, yn enwedig pan fydd rhywun adref.
- Cynyddwch awyru yn y gegin a'r ystafell ymolchi pan fyddwch yn eu defnyddio a chaewch y drws.
- Awyrowch gypyrddau a chypyrddau dillad.
- Peidiwch â blocio awyrellau ('vents') parhaol.
- Cadwch awyryddion 'diferu' yn agored gymaint â phosib.

### Cynheswch eich cartref ychydig fwy

- Os yn bosibl, cadwch y gwres ymlaen yn isel yn y cefndir bob dydd, gan awyru yn y cefndir hefyd.
- Ceisiwch gael gwybod am fudd-daliadau, ad-daliadau a help gyda biliau tanwydd.

Os ydych yn cael anhawster gyda biliau gwresogi cysylltwch â'ch cyflenwr ynni am dariffau amgen neu cysylltwch â'n Swyddogion Cefnogi Tenantiaeth, drwy eich swyddfa tai leol, a all eich helpu.

### Rhagor o wybodaeth a help gyda chostau

Am gyngor pellach, cysylltwch â'n Hymgyngorydd Ynni ar Radffôn 0800 0854145 a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi am eich hawl i gymorth grant ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni eich cartref.

Os ydych yn denant cyngor ac yn ymwybodol o nam sy'n achosi problem lleithder dylech roi gwybod am y mater i'ch swyddfa tai leol ar unwaith.

BYDDWCH YN WYLIADWRUS O UNRHYW ALWYR AR DROTHWY'CH DRWS A ALL DDWEUD WRTHYCH CHI Y GALLANT EICH HELPU I WNEUD EICH ATGYWEIRIADAU, NEU SY'N DOD O HYD I FATERION NAD OEDDECH CHI'N GWYBOD EU BOD YN BROBLEM. Os cysylltir â chi, gofynnwch am gyngor gan eich Swyddfa Dai Leol neu Dîm Yswiriant y Cyngor cyn llofnodi unrhyw beth, gan nad yw'r galwyr hyn bob amser yn ymddangos fel petaent yn ymddangos, ac efallai eich bod yn llofnodi dogfen gyfreithiol y gallech yn bersonol dalu costau cyfreithiol iddi. Os ydych yn ansicr, gwrthodwch a chysylltwch â ni ar unwaith. Gall eich Swyddfa Dai Leol ddarparu sticeri "DIM GALW HEB WAHODDIAD" ar gyfer eich drysau a'ch ffenestri i atal unrhyw alwy digroeso rhag curo'ch drws.